**ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU**
**YSGOL MEDDYGAETH, PRIFYSGOL CAERDYDD**
**YSGOL FEDDYGOL PRIFYSGOL ABERTAWE**

# Cytundeb Hyfforddwyr Meddygol Cymru Gyfan

## (Gofal Eilaidd ac Addysg Israddedig)

***Yn cymryd lle'r Cytundeb Goruchwyliaeth Addysgol a'r Cytundeb Goruchwyliaeth Glinigol Benodol***

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio Cytundeb (ar ffurf a gydnabyddir gan GIG Cymru ac sy'n cydymffurfio â fframwaith rheoleiddio'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer hyfforddiant) rhwng Hyfforddwr cydnabyddedig, Darparwr Addysg Lleol a Threfnydd Addysg, ynghylch trefniadau a chefnogaeth ar gyfer datblygu a darparu addysg feddygol israddedig a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig o ansawdd uchel mewn gofal eilaidd. Gan hynny, mae'r partïon yn cytuno i weithredu yn unol â rolau a chyfrifoldebau'r Hyfforddwr cydnabyddedig, y Darparwr Addysg Lleol a'r Trefnydd Addysg a ddiffiniwyd yn y Cytundeb.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw, Caerdydd, CF15 7QQ

☎ 03300 584 210 heiw.sre@wales.nhs.uk HEIW_NHS HEIW

## Diben y Cytundeb

Ym mis Awst 2012, cyhoeddodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) fanylion trefniadau newydd ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i Hyfforddwyr meddygol mewn gofal eilaidd (ac mewn gofal sylfaenol i'r rheiny nad ydynt yn hyfforddwyr Meddygon Teulu cymeradwy).[1] Mae'r trefniadau'n berthnasol i Hyfforddwyr mewn pedair rôl benodol (a ddiffiniwyd yn *Atodiad 1*):

**Addysg israddedig**

- Y rhai sy'n gyfrifol am oruchwylio cynnydd myfyrwyr ym mhob ysgol feddygol
- Y cydlynwyr arweiniol ym mhob Darparwr Addysg Lleol

**Hyfforddiant ôl-raddedig**

- Goruchwylwyr Addysgol Penodol
- Goruchwylwyr Clinigol Penodol

Nod y Cytundeb yw darparu 'hyblygrwydd' rhwng rolau hyfforddiant a threfniadau i hyrwyddo gallu unigolion i gyflawni rolau hyfforddiant ychwanegol yn amodol ar dderbyn cydnabyddiaeth.

Trwy lofnodi'r Cytundeb hwn a bodloni'i ofynion, bydd meddygon sy'n cyflawni un neu ragor o'r pedair rôl yn cael cydnabyddiaeth **Hyfforddwr** yng Nghymru. Mae gan Drefnwyr Addysg ddyletswydd i gynnig Hyfforddwyr i gael eu cydnabod yn ffurfiol gan y rheoleiddiwr (y GMC) a chadarnheir bod y GMC wedi cydnabod y statws Hyfforddwr hwn trwy nodyn yng nghofnod y llofnodwr ar gofrestr feddygol y GMC, sy'n dweud '*Mae'r meddyg dan sylw yn hyfforddwr sydd wedi'i gydnabod gan y GMC'.*

Trwy lofnodi'r Cytundeb hwn, mae pob parti'n dangos ei ymrwymiad i rôl bwysig yr Hyfforddwr ac i ddarparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel, yn ogystal â chyfrannu at greu amgylchedd dysgu addas ar gyfer myfyrwyr a meddygon dan hyfforddiant, gan arwain, yn y pen draw, at wella diogelwch cleifion a gwella ansawdd gofal cleifion. Bydd y Cytundeb hefyd yn gwella'r cyfathrebu a'r atebolrwydd rhwng y rheiny sy'n gyfrifol am ddarparu a chefnogi addysg a hyfforddiant. Bydd yn codi proffil addysg feddygol israddedig a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig yng Nghymru, gan wneud y wlad yn gyrchfan fwy deniadol i israddedigion ac ôl-raddedigion a gwella recriwtio a chadw staff.

Mae'r Cytundeb yn sylfaenol i wella ansawdd addysg feddygol israddedig a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig yng Nghymru trwy godi proffil rôl yr Hyfforddwr a'i gwneud yn fwy amlwg, a chydnabod y baich gwaith sydd ynghlwm wrth gefnogi myfyrwyr a goruchwylio gweithwyr dan hyfforddiant. Dylai fod cyflawni'r Cytundeb yn cyfrannu at gysondeb a thryloywder y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ar draws y Darparwyr Addysg Lleol yng Nghymru, gyda'r tri Threfnydd Addysg (Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd, Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe ac Addysg a Gwella Iechyd) yn ei gydlynu ac yn rheoli'i ansawdd ar ran Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. Gan hynny, mae'n gyfraniad pwysig at ymgyrch 'Hyfforddi, Gweithio, Byw.'[2] Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru[3].

Bydd yn fodd hefyd i bartïon ddarparu tystiolaeth bod y gofynion a ddiffinnir yn nogfen y GMC ynghylch hyrwyddo rhagoriaeth[4], sy'n disgrifio'r safonau ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant meddygol israddedig ac ôl-raddedig ac 'ymddygiad proffesiynol ac addasrwydd i ymarfer'[5] yn cael eu bodloni; a'u galluogi, trwy hynny, i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Ar ben hynny, bydd y ddogfen hon yn cefnogi Darparwyr Addysg Lleol o ran eu gwaith rheoli ansawdd wrth iddynt gefnogi, rheoli a darparu adnoddau ar gyfer rôl addysgol Hyfforddwyr, a bydd yn gymorth iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal[6] Llywodraeth Cymru. Dylid rhoi'r Cytundeb ar waith oni bai bod y rhesymau dros amrywio hynny wedi'u cyfiawnhau'n glir a'u hegluro i'r Trefnwyr Addysg.

[1] Cyngor Meddygol Cyffredinol - 'Recognising and approving trainers: the implementation plan' (Awst 2012)
[2] Llywodraeth Cymru - Hyfforddi. Gweithio. Byw. https://www.trainworklive.wales (cyrchwyd ddiwethaf: Hydref 2018)
[3] Llywodraeth Cymru - 'Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru' (Ionawr 2018)
[4] Cyngor Meddygol Cyffredinol - 'Promoting excellence: standards for education and training' (Gorffennaf 2015)
[5] Cyngor Meddygol Cyffredinol - 'Professional behaviour and fitness to practise' (Mai 2016)
[6] Llywodraeth Cymru - 'Safonau Iechyd a Gofal' (Ebrill 2015)

## Cwmpas y Cytundeb

Bydd holl lofnodwyr y Cytundeb yn parhau i gael eu rhwymo gan eu contractau cyflogaeth. Dylai meddygon gydymffurfio hefyd â chanllawiau proffesiynol y GMC ar 'Arfer Meddygol Da'[7] ac 'Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg'[8]. Nid yw'r trefniadau ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth i Hyfforddwyr yn newid y gofynion y disgwylir i feddygon eu cyflawni ac a ddisgrifir yn y dogfennau ynghylch canlyniadau ar gyfer graddedigion[9] a'r fframwaith galluoedd proffesiynol cyffredinol[10].

Bwriedir bod y Cytundeb hwn yn cael ei lofnodi gan unigolion sy'n cyflawni un neu ragor o'r rolau Hyfforddwr neu gan unigolion sy'n disgwyl bod yn Hyfforddwyr gweithredol ymhen cyfnod rhesymol o amser ac sydd am fod yn Hyfforddwyr mwy proffesiynol a gweithio tuag at y gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.[11] Diffinnir pwy sy'n gymwys i gyflawni'r rolau yn *Atodiad 2.*

Mae'r Cytundeb hwn yn ymwneud yn benodol â Hyfforddwyr ym maes meddygaeth israddedig a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig Sylfaen, Craidd ac Uwch (gan gynnwys hyfforddiant llai nag amser llawn) yn y pedair rôl benodol y mae'r GMC yn eu cydnabod.

Nid yw'n ymwneud â hyfforddiant Ymarfer Meddygol nac Ymarfer Deintyddol. Fodd bynnag, er bod y GMC yn darparu cymeradwyaeth ar wahân i Feddygon Teulu sy'n gweithredu fel 'Hyfforddwyr Meddygon Teulu' o dan y ddeddf feddygol, bydd gofyn bod Meddygon Teulu sy'n darparu hyfforddiant mewn amgylchedd gofal eilaidd neu'n hyfforddi myfyrwyr meddygol israddedig (a heb gael eu cymeradwyo eisoes gan y rheoleiddiwr fel Hyfforddwyr Meddygon Teulu) yn cael eu cydnabod trwy'r Cytundeb hwn.

Nid yw'n berthnasol i Hyfforddwyr grwpiau heblaw myfyrwyr meddygol israddedig neu hyfforddeion meddygol ôl-raddedig, gan gynnwys graddau Meddygon Arbenigol neu fyfyrwyr cynlluniau Cymrodoriaeth hyfforddiant.

Nid yw'r Cytundeb yn cwmpasu rolau eraill sy'n ymwneud â rheoli a darparu addysg a hyfforddiant meddygol gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r canlynol: Goruchwylydd Clinigol ('sesiynol'), Athro Clinigol, Arweinydd Cyfadran a Thiwtor Coleg. Nid yw chwaith yn cwmpasu meddygon eraill y mae eu hymarfer yn cyfrannu at addysgu, hyfforddi neu oruchwylio myfyrwyr neu hyfforddeion.

Trwy lofnodi'r Cytundeb hwn, mae'r Trefnwyr Addysg yn ymrwymo i sicrhau y caiff ei fonitro a'i adolygu'n barhaus, gan ymateb i'r newidiadau sydd ar waith mewn addysg feddygol yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys themâu, safonau a pholisïau sy'n dod i'r golwg. Bydd hyn yn cynnwys craffu ar unrhyw fersiynau newydd o ddogfennau perthnasol, gan roi sylw i unrhyw newidiadau a'u hadlewyrchu, os byddant yn arwyddocaol, mewn diwygiadau i'r Cytundeb.

Bydd y Trefnwyr Addysg yn cytuno i roi gwybod i Ddarparwyr Addysg Lleol a Hyfforddwyr am newidiadau perthnasol a fydd yn effeithio ar eu hymarfer yn dilyn cyhoeddi'r Cytundeb.

Er bod hyn y tu hwnt i gwmpas y Cytundeb hwn, bydd y Trefnwyr Addysg yn ymrwymo i gyfrannu at yr agenda ehangach o ran cydnabod hyfforddwyr, gan gynnwys ymgysylltu â thrafodaethau a fforymau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol a chyfrannu at ddatblygu 'llwybrau gyrfa' ar gyfer Hyfforddwyr, cydnabod rolau Hyfforddwyr y tu hwnt i'r pedwar categori a gydnabyddir gan y GMC (gan ddefnyddio'r Cytundeb hwn fel fframwaith posibl i'w fabwysiadu neu ei ehangu), ac ystyried rôl yr Hyfforddwr meddygol mewn gweithleoedd amlddisgyblaeth.

---

7 Cyngor Meddygol Cyffredinol - 'Arfer Meddygol Da' (Mawrth 2013, Diweddarwyd Ebrill 2014)

8 Cyngor Meddygol Cyffredinol - 'Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg' (Ionawr 2012)

9 Cyngor Meddygol Cyffredinol - 'Outcomes for graduates' (Mehefin 2018)

10 Cyngor Meddygol Cyffredinol - ' 'Generic professional capabilities framework' (Mai 2017)

11 Dim ond Hyfforddwyr gweithredol sydd â'r hawl i gael amser yn eu cynllun swydd i gyflawni rôl Hyfforddwr.

# Y TREFNYDD ADDYSG

**Mae'r GMC yn diffinio Trefnwyr Addysg fel deonau ôl-raddedig ac ysgolion meddygol sy'n gyfrifol am gydnabod hyfforddwyr mewn pedair rôl benodol, yn unol â gofynion y GMC o ran cydnabod a chymeradwyo hyfforddwyr. Mae Trefnwyr Addysg yn cydweithio i gydnabod hyfforddwyr lle ceir gorgyffwrdd rhwng grwpiau o hyfforddwyr.**

---

**I gefnogi darparu addysg a hyfforddiant meddygol o ansawdd uchel, mae gan y Trefnydd Addysg gyfrifoldeb i wneud y canlynol:**

- **Cydgysylltu** â Darparwyr Addysg Lleol yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cydnabod Hyfforddwyr, a gweithio gyda'r Darparwyr Addysg Lleol i gasglu gwybodaeth am Hyfforddwyr a'i rhannu.
- Gweithio gyda Darparwyr Addysg Lleol i ddatblygu a disgrifio'r meini prawf cymhwysedd a **dethol** unigolion i gyflawni rôl Hyfforddwr
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth a **chydnabyddiaeth** o rôl yr Hyfforddwr
- Datblygu trefniadau **sefydlu** ar gyfer rôl yr Hyfforddwr (ar gyfer Hyfforddwyr sydd newydd gael eu dewis)
- Cefnogi cynnal **cronfa ddata** o Hyfforddwyr, â mynediad ar y cyd priodol ar gyfer Darparwyr Addysg Lleol
- Monitro a rheoli ansawdd yr **amser** a ddarperir mewn cynlluniau swyddi ar gyfer cyflawni rôl Hyfforddwr
- Cefnogi a chyfeirio pobl at weithgareddau **datblygu proffesiynol** sy'n berthnasol i rôl yr Hyfforddwr (yng nghyd-destun meysydd Fframwaith Academi'r Addysgwyr Meddygol (AoME)[12]) a sefydlu system i sicrhau ansawdd a chydnabod hyfforddiant ar gyfer Hyfforddwyr, gan ddadansoddi anghenion fel y bydd angen a monitro nifer yr hyfforddwyr sy'n derbyn hyfforddiant yn gysylltiedig â'r rôl
- Hyrwyddo **arfarniad** blynyddol o rôl yr Hyfforddwr trwy drefn arfarnu'r GIG a monitro'r ddarpariaeth a sicrhau bod arfarnwyr wedi'u paratoi yn ddigonol i arfarnu rolau Hyfforddwyr
- Rhoi prosesau **rheoli ansawdd** ar waith yng nghyswllt goruchwylio a hyfforddi a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol o ffynonellau allanol ynghylch rheoli ansawdd, gan gynnwys canlyniadau Arolwg Hyfforddwyr Cenedlaethol y GMC
- Sicrhau y darperir systemau sy'n fodd i Hyfforddwyr a Darparwyr Addysg Lleol roi **adborth** i'r Trefnwyr Addysg yn ôl y gofyn
- Darparu strwythurau a phrosesau **cymorth** i Hyfforddwyr a Darparwyr Addysg Lleol, a sicrhau bod partïon yn gwybod sut mae cael mynediad at y cymorth hwn.
- Darparu a chefnogi trefniadau i Hyfforddwyr a Darparwyr Addysg Lleol **gydgysylltu** â'i gilydd er mwyn sicrhau ymagwedd gyson at ddarparu addysg a hyfforddiant a rhannu arfer da ar draws meysydd arbenigol, proffesiynau a Darparwyr Addysg Lleol
- Cydgysylltu â Darparwyr Addysg Lleol ynghylch pryderon am Hyfforddwyr unigol, a rhoi camau **adfer** ar waith, lle bydd hynny'n briodol
- Darparu system ar gyfer **penderfynu** na ddylai unigolion barhau i fod yn Hyfforddwyr a thynnu'r gydnabyddiaeth yn ôl, a gweithdrefn ar gyfer apelio yn erbyn y penderfyniadau hyn, gan adeiladu ar drefniadau presennol
- Cydnabod, hyrwyddo a **gwobrwyo** arloesedd a rhagoriaeth wrth gyflawni rôl Hyfforddwr
- Ymrwymo i **reoli** addysg a hyfforddiant meddygol (a'u datblygu) trwy fodloni darpariaethau unrhyw Ddisgwyliadau neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Darparwyr Addysg Lleol a'r gwaith comisiynu cysylltiedig.
- **Rhoi adroddiadau** rheolaidd i'r GMC ynghylch gweithredu trefniadau cydnabod Hyfforddwyr a chydweithredu â'r GMC o ran sicrhau ansawdd y gwaith hwn.

[12] Academi'r Addysgwyr Meddygol - 'A Framework for the Professional Development of Postgraduate Medical Supervisors' (Tachwedd 2010)

## Y DARPARWR ADDYSG LLEOL (BWRDD IECHYD LLEOL NEU YMDDIRIEDOLAETH GIG)

**Mae Darparwyr Addysg Lleol (Byrddau Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaethau GIG Cymru) yn gyfrifol am gynnal a chefnogi addysg a hyfforddiant meddygol israddedig ac ôl-raddedig, gan sicrhau bod myfyrwyr a hyfforddeion yn derbyn addysg a hyfforddiant sy'n bodloni safonau lleol, cenedlaethol a phroffesiynol. Darperir yr hyfforddiant o ddydd i ddydd ar y lefel hon.**

---

### I gefnogi darparu addysg a hyfforddiant meddygol o ansawdd uchel, mae gan y Darparwr Addysg Lleol gyfrifoldeb i wneud y canlynol:

- **Cydgysylltu** â'r Trefnwyr Addysg yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cydnabod Hyfforddwyr, a gweithio gyda'r Trefnwyr Addysg i gasglu gwybodaeth am Hyfforddwyr a'i rhannu.
- **Nodi'r** unigolion sy'n cyflawni rolau Hyfforddwyr ar hyn o bryd a dewis unigolion i berfformio'r rolau
- Sicrhau bod **digon** o Hyfforddwyr ar gael i hyfforddi
- **Cydnabod** rôl a chyfrifoldebau'r Hyfforddwr o ran addysg a hyfforddiant
- Ystyried trefniadau ar gyfer **sefydlu** Hyfforddwyr
- Cyfranogi mewn prosesau i boblogi a diweddaru'r **gronfa ddata** o Hyfforddwyr sydd gan y Trefnwyr Addysg
- Sicrhau bod cydnabyddiaeth i gyfrifoldebau addysgol Hyfforddwyr trwy ddarparu **amser** amlwg a digonol ar gyfer y rôl, fel y bydd hynny'n briodol, trwy gynlluniau swyddi
- Bod yn hyblyg wrth ddyrannu **amser** i gyflawni swyddogaeth yr hyfforddwr yn unol â gofynion y tîm neu'r adran ac anghenion yr Hyfforddwr unigol[13]
- Darparu cymorth o ran hyfforddiant a **datblygiad proffesiynol** Hyfforddwyr, gan fapio'r trefniadau yn erbyn 7 maes Fframwaith Academi'r Addysgwyr Meddygol, a sicrhau y cydymffurfir â safonau'r GMC
- Darparu **arfarniad** blynyddol o'r elfen addysgol o gynllun swydd yr Hyfforddwr fel rhan o drefn arfarnu'r GIG gan roi ystyriaeth i'r berthynas rhwng darparu gwasanaethau ac addysg a hyfforddiant
- Sicrhau bod cyfle i'r Hyfforddwyr dderbyn **adborth** parhaus ac adeiladol ar eu perfformiad yn cyflawni eu rolau
- Annog Hyfforddwyr i ymgysylltu â phrosesau **sicrhau ansawdd**, yn ôl y gofyn, gan gynnwys cwblhau Arolwg Hyfforddwyr Cenedlaethol y GMC
- Cyfrannu'n weithredol at brosesau **rheoli ansawdd**, fel sy'n ofynnol, sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant gan gynnwys rhoi adborth i'r Trefnwyr Addysg
- Gweithredu ar ganfyddiadau neu ganlyniadau gwaith **rheoli ansawdd** o ran rolau Hyfforddwyr trwy roi sylw i feysydd sy'n achosi pryder ac anghenion datblygu neu drwy gydnabod arfer da a'i rannu
- Cefnogi Hyfforddwyr i fynd i **gyfarfodydd** sy'n ymwneud â'r rôl neu â darparu addysg a hyfforddiant
- Annog Hyfforddwyr i gymryd rhan mewn **gweithgareddau ategol** sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant meddygol, gan gynnwys cymryd rhan mewn gwaith recriwtio i swyddi gradd hyfforddi, cyfweliadau derbyn i ysgolion meddygol, paneli Adolygiad Blynyddol o Ddilyniant Cymhwysedd neu fyrddau arholi a chyflawni gweithgareddau addysgol a chyfleoedd dysgu fel Digwyddiadau Dysgu Strwythuredig gyda myfyrwyr a hyfforddeion
- Darparu strwythurau a phrosesau **cymorth** cyfadran yn lleol ar gyfer Hyfforddwyr a sicrhau eu bod yn gwybod sut mae cael y cymorth hwn, os bydd gofyn

---

[13] Gall fod gofyn treulio mwy o amser yn cynorthwyo myfyrwyr neu hyfforddeion sydd â phroblemau perfformiad na’r hyn sydd ei angen ar fyfyrwyr neu hyfforddeion eraill ac felly mae'n rhaid i'r Darparwr Addysg Lleol sylweddoli bod angen hyblygrwydd o ran yr amser a dreulir yn cyflawni rôl yr Hyfforddwr o dan yr amgylchiadau hyn.

- Darparu trefniadau i Hyfforddwyr **gydgysylltu** ag eraill er mwyn sicrhau ymagwedd gyson at ddarparu addysg a hyfforddiant a rhannu arfer da ar draws meysydd arbenigol a phroffesiynau
- Cydnabod, hyrwyddo a **gwobrwyo** arloesedd a rhagoriaeth wrth gyflawni rôl yr Hyfforddwr
- Cymryd camau priodol lle bydd pryderon ynghylch Hyfforddwyr unigol a rhoi camau **adfer** ar waith lle bydd hynny'n briodol
- Cydgysylltu â'r Trefnwyr Addysg ynghylch **penderfyniadau** na ddylai unigolion barhau i fod yn Hyfforddwyr a thynnu'r gydnabyddiaeth yn ôl
- Ymrwymo i **ddarparu** addysg a hyfforddiant meddygol (a'u datblygu) trwy fodloni gofynion Disgwyliadau neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Trefnwyr Addysg a'r gwaith comisiynu cysylltiedig
- Bod yn atebol i'r Trefnwyr Addysg am **ddefnyddio'r adnoddau** a dderbyniwyd i gefnogi addysg a hyfforddiant meddygol

## YR HYFFORDDWR

**Mae Hyfforddwyr Meddygol yn feddygon profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, sy'n gyfrifol am addysg a hyfforddiant myfyrwyr meddygol a/neu hyfforddeion meddygol ôl-raddedig mewn amgylchedd ymarfer meddygol. Mae Hyfforddwr yn darparu goruchwyliaeth sy'n briodol i gymhwysedd a phrofiad y myfyriwr neu'r hyfforddai a'r amgylchedd hyfforddi. Bydd yn rhan o'r diwylliant a'r amgylchedd dysgu ac yn cyfrannu ato, yn darparu adborth ar gyfer dysgu a gall fod â chyfrifoldeb penodol am arfarnu a/neu asesu.**

---

**I gefnogi darparu addysg a hyfforddiant meddygol o ansawdd uchel, mae gan yr Hyfforddwr gyfrifoldeb i wneud y canlynol:**

- Cyflawni rôl yr Hyfforddwr a ddiffiniwyd gan y Trefnwyr Addysg neu yn y disgrifiadau swydd, fel y bydd hynny'n briodol
- Cymryd rhan yn y gweithgareddau **sefydlu** sydd ar gael ar gyfer rôl yr Hyfforddwr
- Defnyddio'r **amser** a neilltuwyd ar gyfer cyflawni rôl yr Hyfforddwr yn y cynllun swydd i gyflawni'r rôl a'r cyfrifoldebau a ddiffiniwyd yn y Cytundeb hwn, gan wneud hynny'n briodol ac yn effeithiol
- Nodi eu **hanghenion dysgu** a chyfleoedd perthnasol i ddatblygu'n broffesiynol (gellir gwneud hyn yn y cyfarfod arfarnu ar y cyd ag arfarnwr)
- Ymrwymo i dderbyn **datblygiad proffesiynol** sy'n berthnasol i rôl yr Hyfforddwr er mwyn datblygu sgiliau a chymhwysedd a darparu tystiolaeth o'r sesiynau hyfforddiant a fynychwyd neu a gwblhawyd mewn ymateb i gais
- Arddangos yr **agweddau a'r ymddygiad** sy'n briodol i rôl yr Hyfforddwr, a darparu tystiolaeth o hynny ar gais
- Ymgyrraedd at ragoriaeth wrth gyflawni rôl yr Hyfforddwr. (Gall hyn olygu datblygiad proffesiynol pellach gan gynnwys dilyn modiwlau astudio, cymhwyster ffurfiol mewn addysg feddygol, aelodaeth o gyrff proffesiynol gan gynnwys Academi'r Addysgwyr Meddygol neu ymgysylltu ag ysgolheictod.)
- Cymryd rhan mewn **arfarniad** blynyddol o elfen addysgol y cynllun swydd, fel rhan o drefniadau arfarnu'r GIG
- Ymgysylltu â phrosesau **rheoli ansawdd** yn ôl y gofyn a chwblhau Arolwg Hyfforddwyr Cenedlaethol blynyddol y GMC[14] ar gais.
- **Cydgysylltu** ag eraill, yn yr adrannau clinigol a'r Darparwr Addysg Lleol, i sicrhau ymagwedd gyson at ddarparu addysg a hyfforddiant a rhannu arfer da ar draws meysydd arbenigol a phroffesiynau
- Cymryd rhan mewn **gweithgareddau ategol** sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant meddygol. Gallai hyn gynnwys cymryd rhan mewn prosesau recriwtio i swyddi gradd hyfforddi, cyfweliadau, paneli Adolygiad Blynyddol o Ddilyniant Cymhwysedd neu fyrddau arholi a chyflawni gweithgareddau addysgol a chyfleoedd dysgu megis digwyddiadau dysgu strwythuredig gyda myfyrwyr a hyfforddeion
- Defnyddio'r strwythurau a'r prosesau **cymorth** sydd ar gael i gynorthwyo wrth ddarparu a datblygu'r rôl hyfforddi, yn ôl y gofyn[15]

---

[14] Ni fydd Hyfforddwyr sy'n dysgu myfyrwyr meddygol israddedig yn unig yn gymwys i gwblhau Arolwg Hyfforddwyr Cenedlaethol y GMC

[15] Bydd llofnodi'r Cytundeb yn caniatáu i Hyfforddwyr gael mynediad at wasanaethau llyfrgell a TG GIG Cymru, sy'n cynnwys mynediad at gasgliad helaeth o e-adnoddau ar y We, gan gynnwys e-Gyfnodolion, e-Lyfrau a chronfeydd data pwysig.

## Cyfrifoldebau Cyffredinol yr Hyfforddwr

- Ymgyfarwyddo â'r wybodaeth ddiweddaraf am y cwricwla perthnasol, y portffolio dysgu, polisi lleol sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant, damcaniaeth addysgol a thechnegau addysgol ymarferol
- Trin cleifion, cydweithwyr, myfyrwyr a hyfforddeion ag urddas, cwrteisi a pharch bob amser a hyrwyddo diwylliant lle na cheir camwahaniaethu nac aflonyddu, gan ystyried egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Galluogi myfyriwr neu hyfforddai i ddysgu trwy dderbyn cyfrifoldeb dros reoli cleifion yng nghyd-destun llywodraethu clinigol a diogelwch cleifion
- Sicrhau y gwerthfawrogir gofal clinigol am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig, a bod y dysgu a'r addysgu wedi'u hintegreiddio yn narpariaeth y gwasanaeth gan sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso dysgu effeithiol bob amser
- Bod yn effro i fyfyrwyr neu hyfforddeion y mae eu hymddygiad, eu hiechyd, eu cynnydd neu eu perfformiad yn achosi pryder a rheoli a chefnogi'r unigolyn, lle gwelir bod problemau, yn unol â'r polisïau lleol a chanllawiau'r Trefnydd Addysg perthnasol
- Cydgysylltu a chyfathrebu'n briodol â Hyfforddwyr eraill a'r Trefnwyr Addysg o ran datblygiad a chynnydd myfyrwyr a hyfforddeion, yn enwedig ar ddiwedd lleoliad neu pan fydd gofyn 'trosglwyddo' cyfrifoldebau
- Cydweithio â meddygon eraill sy'n cyfrannu, trwy eu hymarfer, at addysgu, hyfforddi neu oruchwylio myfyrwyr neu hyfforddeion a phobl eraill yn y gweithle aml-broffesiwn sydd â rolau rheoli a darparu addysg a hyfforddiant, a rhoi cymorth iddynt
- Mynd i gyfarfodydd sy'n berthnasol i rôl yr Hyfforddwr a lledaenu gwybodaeth i fyfyrwyr neu hyfforddeion, neu bobl eraill sydd â rhan yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, fel y bydd hynny'n briodol
- Trefnu bod cydweithiwr priodol yn cyflawni rôl yr Hyfforddwr yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb a rhoi gwybod i Gyfarwyddwr y Rhaglen Hyfforddi berthnasol neu'r Ysgol Feddygol berthnasol os bydd yr absenoldeb yn para mwy na phedair wythnos

## Diffiniadau o Rolau Hyfforddwr

Mae'r GMC yn gofyn bod pedair math o rôl yn cael eu cydnabod i Hyfforddwr meddygol mewn addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig.

Diffinnir cyfrifoldebau penodol Hyfforddwyr yn y disgrifydd swydd neu'r disgrifiad swydd perthnasol sydd gan y Trefnydd Addysg perthnasol a dylid darllen y rhain ochr yn ochr â'r canllawiau lleol neu genedlaethol eraill ar bob un o rolau'r Hyfforddwr.

Diffinnir y rolau fel a ganlyn -

### Addysg Israddedig

**Y rhai sy'n gyfrifol am oruchwylio cynnydd myfyrwyr ym mhob ysgol feddygol**

> *un neu ragor o feddygon a nodwyd gan ysgol feddygol sy'n gyfrifol am oruchwylio llwybrau dysgu a chynnydd addysg myfyrwyr. Gallent fod yn feddygon ymgynghorol y GIG neu'n academyddion clinigol sy'n gweithio fel cydlynwyr bloc neu gwrs.*

Mae Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd wedi mapio'r diffiniad hwn i'r rheiny sy'n aelodau o fyrddau arholi ac yn goruchwylio cynnydd myfyrwyr yn y cam hwnnw. Mae'r rolau hyn yn cynnwys Cyfarwyddwr Blwyddyn (a Dirprwy Gyfarwyddwr), Arweinydd Modiwl, Arweinydd Thema ac Arweinydd Asesu.

Mae Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe wedi mapio'r diffiniad hwn i rolau sy'n cynnwys y tîm Arweinyddiaeth (Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid Rhaglenni, Cyfarwyddwyr Rhaglenni, Arweinwyr Blwyddyn a Charfan, Arweinwyr Is-bwyllgorau a Dirprwy Arweinwyr) ac Arweinwyr Addysgu Academaidd (Arweinwyr Wythnos, Llinyn, Thema ac Arweinwyr Dulliau Clinigol Integredig).

**Cydlynwyr arweiniol ym mhob Darparwr Addysg Lleol**

> *un neu ragor o feddygon ym mhob Darparwr Addysg Lleol sy'n gyfrifol am gydlynu hyfforddiant myfyrwyr, am oruchwylio eu gweithgareddau ac am sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn darparu gwerth addysgol.*

Mae Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd wedi mapio'r diffiniad hwn i'r rheiny a benodwyd yn Uwch-ddarlithwyr Anrhydeddus sy'n rheoli lleoliadau myfyrwyr yn y Darparwyr Addysg Lleol ac yn ddolen gyswllt â'r Brifysgol.

Mae Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe wedi mapio'r diffiniad hwn i'r rheiny sydd â rolau allweddol o ran arwain neu drefnu rhaglenni'r Ysgol Feddygol neu o ran addysgu myfyrwyr meddygol. Mae'r rhain yn Arweinwyr Addysgu Clinigol (Arweinwyr Ymlyniad, Isddarlithyddiaeth, Dysgu yn y Gymuned ac Arweinwyr Ardal).

Mewn addysg israddedig, pennir yr amser a neilltuir ar gyfer cyflawni gwaith Hyfforddwr gan y rôl benodol, ac fe'i diffinnir yn y disgrifydd rôl neu'r disgrifiad swydd perthnasol sydd gan y Trefnydd Addysg perthnasol.[16]

Rhaid i'r gweithgareddau datblygu proffesiynol a gyflawnir gan unigolion mewn unrhyw rôl Hyfforddwr israddedig gyfateb i o leiaf 8 awr bob blwyddyn a rhaid iddynt gydymffurfio â safonau'r GMC o ran 7 maes Fframwaith Academi'r Addysgwyr Meddygol dros gylch o bum mlynedd, wedi'u halinio, lle bydd hynny'n bosibl â'r cylch ailddilysu meddygol (a chan gwmpasu o leiaf 2 o feysydd y Fframwaith bob blwyddyn.

[16] Bydd yr amser a neilltuir ar gyfer cyflawni rôl Uwch-ddarlithydd Anrhydeddus yn amrywio, yn dibynnu ar faint y Darparwr Addysg Lleol y lleolwyd y swydd ynddo.

## Hyfforddiant Ôl-raddedig

**Goruchwylydd Addysgol**

> *hyfforddwr a gaiff ei ddethol a'i hyfforddi'n briodol i fod yn gyfrifol am oruchwyliaeth a rheolaeth gyffredinol ar lwybr dysgu a chynnydd addysgol hyfforddai yn ystod lleoliad neu gyfres o leoliadau. Rhaid i bob hyfforddai gael goruchwylydd addysgol penodol. Mae'r goruchwylwyr addysgol yn helpu'r hyfforddeion i gynllunio'u hyfforddiant a chyflawni'r canlyniadau dysgu cytunedig. Y Goruchwylydd sy'n gyfrifol am y cytundeb addysg ac am ddod â'r holl dystiolaeth berthnasol at ei gilydd i ffurfio barn grynodol ar ddiwedd y lleoliad neu'r gyfres o leoliadau.*[17]

Rhaid bod gan bob hyfforddai Oruchwylydd Addysgol penodol a dylid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r hyfforddai am hyn. Gall hyfforddeion gael yr un Goruchwylydd Addysgol ar hyd eu rhaglen hyfforddi, am rannau o'u hyfforddiant neu ar gyfer lleoliad clinigol unigol - y Darparwr Addysg Lleol fydd yn pennu'r union fodel. Gall Goruchwylydd Addysgol fod wedi'i leoli mewn adran wahanol, ac weithiau, mewn sefydliad gwahanol i'r hyfforddai neu'r hyfforddeion y mae'n gyfrifol amdanynt.

Y drefn arferol yw na chaiff Goruchwylydd Addysgol oruchwylio mwy na phedwar hyfforddai ar yr un pryd, yn amodol ar ddarparu amser priodol yn y cynllun swydd i gyflawni'r swyddogaethau goruchwylio addysg a ddiffinnir yn y Cytundeb hwn. Dylid trafod amrywiadau i'r trefniant hwn gyda'r Trefnydd Addysg perthnasol cyn llofnodi'r Cytundeb. Fel rheol, bydd yr amser a nodir mewn cynllun swydd ar gyfer cyflawni rôl Goruchwylydd Addysgol yn gyfwerth ag o leiaf 0.25 sesiwn cefnogi gweithgareddau clinigol yr wythnos i bob hyfforddai a oruchwylir.

Gall Goruchwylydd Addysgol weithredu hefyd fel Goruchwylydd Clinigol Penodol ar gyfer hyfforddai neu hyfforddeion a gall y rolau hyn orgyffwrdd i raddau.

Rhaid i'r gweithgareddau datblygu proffesiynol a gyflawnir gan Oruchwylwyr Addysgol gyfateb i o leiaf 8 awr bob blwyddyn a rhaid iddynt gydymffurfio â safonau'r GMC o ran 7 maes Fframwaith Academi'r Addysgwyr Meddygol dros gylch o bum mlynedd wedi'u halinio, lle bydd hynny'n bosibl, â'r cylch ailddilysu meddygol (ac o leiaf 2 o feysydd y Fframwaith bob blwyddyn.

**Goruchwylydd Clinigol Penodol**

> *hyfforddwr sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith clinigol hyfforddai penodedig trwy gydol y lleoliad mewn amgylchedd clinigol neu feddygol ac sydd wedi'i hyfforddi'n briodol i wneud hynny. Bydd yn darparu adborth adeiladol yn ystod y lleoliad hwnnw. Bydd yn arwain ar ddarparu adolygiad o ymarfer clinigol neu feddygol yr hyfforddai trwy gydol y lleoliad a fydd yn cyfrannu at adroddiad y goruchwylydd addysgol sy'n nodi a ddylai'r hyfforddai symud ymlaen i'r cam hyfforddi nesaf neu beidio.*[9]

Mae'r rôl hon wedi'i dadgyfuno o oruchwyliaeth glinigol, sy'n rhywbeth y mae pob meddyg yn ei wneud mewn ymarfer clinigol. Dywed y GMC fod angen "darparu adnoddau a chymorth priodol" ar gyfer y cyfraniad hollbwysig hwn ond nad yw cydnabyddiaeth ffurfiol gan y GMC yn ofynnol ar gyfer y rôl hon.

Ar gyfer pob lleoliad neu fodiwl, rhaid bod gan bob hyfforddai Oruchwylydd Clinigol Penodol a dylid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r hyfforddai am hyn. Gall Goruchwylydd Clinigol Penodol weithredu hefyd fel Goruchwylydd Addysgol ar gyfer hyfforddai neu hyfforddeion a gall y rolau hyn orgyffwrdd i raddau.

Y drefn arferol yw na chaiff Goruchwylydd Clinigol Penodol oruchwylio mwy na phedwar hyfforddai ar yr un pryd, yn amodol ar ddarparu amser priodol yn y cynllun swydd i gyflawni'r swyddogaethau goruchwylio lleoliad neu fodiwl. Dylid trafod amrywiadau i'r trefniant hwn gyda Deoniaeth Cymru cyn llofnodi'r Cytundeb. Fel rheol, bydd yr amser yn gyfwerth â chyfradd safonol leiaf, sef 0.25 sesiwn cefnogi gweithgareddau clinigol yr wythnos (faint bynnag o hyfforddeion a oruchwylir).

Rhaid i'r gweithgareddau datblygu proffesiynol a gyflawnir gan Oruchwylwyr Clinigol Penodol gyfateb i o leiaf 4 awr y flwyddyn a rhaid iddynt gydymffurfio â safonau'r GMC o ran maes 1-4 a maes 7 yn Fframwaith Academi'r Addysgwyr Meddygol dros gylch o bum mlynedd wedi'u halinio, lle bydd hynny'n bosibl, â'r cylch ailddilysu meddygol (ac o leiaf 2 o feysydd y Fframwaith bob blwyddyn). Dylid annog yr Hyfforddwyr hyn i geisio cyflawni o leiaf 8 awr o weithgareddau datblygu proffesiynol bob blwyddyn, h.y. yr un nifer â Hyfforddwyr mewn rolau eraill.

---

[17] Cyngor Meddygol Cyffredinol - 'Cydnabod a chymeradwyo hyfforddwyr: y cynllun gweithredu' (Awst 2012)

## Cymhwysedd ar gyfer Rolau Hyfforddwr

Dylai pob Hyfforddwr fod yn feddyg sydd wedi mynegi diddordeb clir mewn hyfforddi, asesu a datblygu myfyrwyr meddygol israddedig a/neu hyfforddeion meddygol ôl-raddedig.

Rhaid i'r unigolion fod yn barod i ymrwymo i fod yn Hyfforddwr, gan gyflawni eu cyfrifoldebau hyfforddi o dan y Cytundeb hwn a dod yn fwy proffesiynol o ran rôl yr Hyfforddwr trwy ymrwymo i dderbyn datblygiad proffesiynol perthnasol a chyfrannu at arfarnu rôl Hyfforddwr.

I gyflawni cyfrifoldebau rôl Hyfforddwr, dylai fod gan unigolion wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth a gweithio yn unol â'r rhain wrth gyflawni eu cyfrifoldebau fel Hyfforddwyr.

Mae'r cymwyseddau ar gyfer rôl yr Hyfforddwr yng Nghymru fel a ganlyn -

| | Addysg Israddedig [18] | | Hyfforddiant Ôl-raddedig | |
|---|---|---|---|---|
| | **Yn gyfrifol am oruchwylio cynnydd myfyrwyr** | **Cydlynydd Arweiniol** | **Goruchwylydd Addysgol** | **Goruchwylydd Clinigol Penodol** |
| Ymgynghorydd Meddygol Parhaol | cymwys | Cymwys | ar gyfer hyfforddeion Sylfaen, Craidd ac Uwch | ar gyfer hyfforddeion Sylfaen, Craidd ac Uwch |
| Ymgynghorydd Locwm | anghymwys | Anghymwys | anghymwys | anghymwys |
| Meddyg Teulu | cymwys | Cymwys | heb fod yn berthnasol | heb fod yn berthnasol |
| Meddyg Teulu Locwm | anghymwys | Anghymwys | anghymwys | anghymwys |
| Gradd staff, Meddyg Arbenigol neu Arbenigwr Cysylltiol (SAS) â Thystysgrif Cwblhau Hyfforddiant (CCT) | cymwys | Cymwys | ar gyfer hyfforddeion Sylfaen, Craidd ac Uwch | ar gyfer hyfforddeion Sylfaen, Craidd ac Uwch |
| Meddyg SAS heb CCT | cymwys | Anghymwys | ar gyfer hyfforddeion Sylfaen a Chraidd yn unig | ar gyfer hyfforddeion Sylfaen a Chraidd yn unig |

O dan amgylchiadau eithriadol, bydd y Trefnydd Addysg perthnasol yn ystyried cymhwysedd fesul achos.

Caiff meddygon sy'n wynebu ymchwiliad o dan weithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer y GMC gyflawni rôl Hyfforddwr oni bai eu bod wedi'u hatal rhag ymarfer neu bod eu hymarfer wedi'i gyfyngu tra bod yr ymchwiliad yn parhau. Mae cyfrifoldeb ar y Darparwyr Addysg Lleol i roi gwybod i'r Trefnydd/Trefnwyr Addysg perthnasol am hynny.

[18] Mae'r rolau Hyfforddwr israddedig y mae'r Trefnwyr Addysg wedi eu mapio i ddiffiniadau'r GMC yn benodiadau ffurfiol fel rheol gyda gofynion a manylebau person cysylltiedig, ac asesir y rhain yn ystod y broses recriwtio berthnasol.

## Telerau Dealltwriaeth

Trwy lofnodi'r Cytundeb hwn bydd y llofnodwyr yn ymrwymo i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y Cytundeb hyd eithaf eu gallu. Ar y cyd, mae'r partïon yn cyd-fynd ag ethos y Cytundeb hwn, sef hyrwyddo rhagoriaeth o'r ddeutu wrth ddatblygu, darparu a chefnogi addysg a hyfforddiant meddygol o ansawdd uchel.

Bydd gofyn bod Hyfforddwr sy'n newid cyflogaeth i Ddarparwr Addysg Lleol gwahanol yn llofnodi Cytundeb newydd.

Rhaid i barti sydd am dynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn roi gwybod i'r partïon eraill, yn ysgrifenedig, am ei fwriad.

---

Rwyf wedi darllen a deall cynnwys y Cytundeb hwn a chyfrifoldebau'r Trefnydd Addysg yn arbennig, a chytunaf drwy hyn i lynu wrthynt.

**Llofnod:** **Enw:** YR ATHRO PETER DONNELLLY

**(Llofnodwyd ar ran Addysg a Gwella Iechyd Cymru)**

**Swydd:** Deon Israddedig **Dyddiad:** 13eg Tachwedd 2018

---

**Llofnod:** **Enw:** YR ATHRO STEVE RILEY

**(Llofnodwyd ar ran Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd)**

**Swydd:** Deon Addysg Feddygol **Dyddiad:** 13eg Tachwedd 2018

---

**Llofnod:** **Enw:** YR ATHRO ANDREW GRANT

**(Llofnodwyd ar ran Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe)**

Swydd: Deon Addysg Feddygol Dyddiad: 13eg Tachwedd 2018

---

Rwyf wedi darllen a deall cynnwys y Cytundeb hwn a chyfrifoldebau'r **Darparwr Addysg Lleol** yn arbennig, a chytunaf drwy hyn i lynu wrthynt.

**Llofnod:** **Enw:**

**(Llofnodwyd ar ran y Darparwr Addysg Lleol )**

**Swydd:** Cyfarwyddwr Meddygol **Dyddiad:** 13eg Tachwedd 2018

Rwyf wedi darllen a deall cynnwys y Cytundeb hwn a chyfrifoldebau'r **Hyfforddwr** yn arbennig, a chytunaf drwy hyn i lynu wrthynt.

**Llofnod:** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **Dyddiad:** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Teitl:** . . . . . . . . . **Enw(au) Cyntaf:** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . **Cyfenw:** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Rhif GMC:**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

Cedwir a defnyddir gwybodaeth bersonol yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data (2018). Ni fydd y Trefnwyr Addysg yn datgelu'r wybodaeth hon i bersonau na chyrff anawdurdodedig ond byddant yn defnyddio'r wybodaeth, lle bydd hynny'n briodol, wrth gyflawni eu hamrywiol swyddogaethau a gwasanaethau. Mae'r manylion llawn yn y Nodyn Preifatrwydd ar gyfer Hyfforddwyr, sydd ar gael ar gais.

Mae rhestr o'r termau a'r acronymau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb hwn ar gael ar gais.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English